GLYNN VIVIAN DYSGU-LEARNING

# Bywluniadu yn y Cartref:

## Gustave Doré a'r Paradocs o Gyferbynnu Tonaidd Llinellau



Gustave Doré: Madam Adelina Patti. Olew a siarcol ar gynfas. 52.5 x 37cm. Oriel Gelf Glynn Vivian.

Mae'r portread hwn gan Gustave Doré yn arddangos paradocs diddorol ynghylch y defnydd o dôn mewn celf. Allwch chi weld sut mae'r cefndir du yn gwneud i'r pen ymddangos yn agosach atom?


Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

FRIENDS OF THE GLYNN VIVIAN

Cyngor Abertawe
Swansea Council

Mae'r broses arlunio yn ein hannog i gydnabod y nod a ddarlun-iwyd fel ffurf haniaethol, yn ogystal â dehongliad o realiti. Yn gys-ylltiedig â'r wybodaeth hon ceir sawl cafeat gweledol hefyd, y mae'n rhaid i artist eu hystyried a'u defnyddio/goresgyn/hepgor. Mae un cafeat o'r fath yn ymwneud â'r cysyniad o ddefnyddio cyferbyniad tonaidd i hyrwyddo'r nod haniaethol.

P'un o'r ddwy linell isod sy'n ymddangos yn agosach atoch?



I'n llygaid ni, mae'r llinell dywyllach yn ymddangos yn agosach atom oherwydd nid yw'n debyg i'r papur o ran tôn, ac felly mae'n fwy amlwg.

Mae hyn yn cyflwyno problem. Wrth arlunio, y duedd yw tynnu llinell o gwmpas ymylon testun y llun, er mwyn ei amgáu â llinell. Wrth arlunio person, bydd yr amlinell dywyll yn gwneud y rhan o'r corff sydd pellaf oddi wrthym yn fwy amlwg yn ein llygaid - drwy hyn, ceir cildroad yn y canfyddiad o ddyfnder, a gall y ddelwedd ymddangos yn wastad.

Mae darlunwyr yn defnyddio amryw strategaethau i oresgyn y paradocs tonaidd hwn, fodd bynnag rydyn ni'n mynd i ganol-bwyntio ar sut gallwn ddefnyddio cyferbyniad tonaidd i'n helpu.

Gan gyfeirio nôl at y portread gan Doré, mae'r artist wedi defnyddio paent du i greu cefndir rhannol fel bod y marciau goleuach, sy'n gwrthgyferbynnu â'r cefndir, ynghyd â phroffil yr wyneb, sydd hefyd yn oleuach, yn ymddangos yn agosach atom. Cafwyd effaith tebyg gan gyfranogwr a arluniodd y llun isod - mae llinell yr ysgwydd chwith wedi'i newid yn gefndir tywyll, ac felly mae'r ysgwydd yn ymddangos yn agosach yn ein llygaid:



**Bywluniadu yn y Cartref - Her 1:** Ceisiwch ychwanegu rhannau bach o dôn cefndir, yn lle rhai o'r llinellau, at lun llinellog. Sut mae'n newid y llun?

**Bywluniadu yn y Cartref - Her 2:** Tynnwch lun o'ch ystafell neu'ch gardd heb ddefnyddio llinellau a chan ganolbwyntio ar y newid mewn tôn rhwng pob gwrthrych.

**Bywluniadu yn y Cartref - Her 3:** Ceisiwch wrthdroi'r broses arferol o arlunio drwy orchuddio'ch papur â siarcol/graffit a defnyddio'ch rwber fel yr offeryn gwneud marciau.